| CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD (2011 - 2026) | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Gwrandawiad Cyhoeddus 1 – Paratoi'r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth**<br>**Gwrandawiad Cyhoeddus 9 – Wylfa Newydd;**<br>**Gwrandawiad Cyhoeddus 13 – Sipsiwn a Theithwyr; a**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 16 - Monitro a Gweithredu a Materion Amrywiol** | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

## [1] Pwynt Gweithredu S9/PG11 – Fframwaith Monitro

**Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gryfhau'r fframwaith fonitro. Yn achos Wylfa Newydd – adnabod dangosyddion sydd yn gysylltiedig a chyfnodau allweddol i'r prosiect.**

## [2] Pwynt Gweithredu S13/PG7 – Fframwaith Monitro

**Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynghorau yn gallu monitro llwyddiant y Cynghorau ai pheidio i ddarparu safleoedd parhaol yn amserol, ac i fesur os oes angen safle tramwy ai pheidio yn ystod oes y Cynllun**

## [3] Pwynt Gweithredu S16/PG1 – PG39: Fframwaith Monitro

**Yn ystod Sesiwn Gwrandawiad 16 gosodwyd cyfres o bwyntiau gweithredu, sy'n rhoi cyfle i'r Cynghorau i fireinio ymhellach y fframwaith monitro ym Mhennod 8 o'r Cynllun. Darperir y rhestr o bwyntiau gweithredu perthnasol yn y Llyfrgell yr Archwiliad.**

## [4] Ymateb y Cynghorau

4.1 Mae Atodiad 1 yn rhoi copi o'r Newidiadau Materion sy'n Codi i Bennod 8 y Cynllun, sy'n cynnwys y fframwaith monitro.

## [5] Pwynt Gweithredu S1/PG3 & Pwynt Gweithredu S16/PG42 – Ffurf y Cynllun

**Adolygu'r Cynllun i sicrhau nad oes yna ail adrodd materion rhwng polisïau strategol a pholisïau manwl ar yr 'run pwnc – a oes angen rhai polisïau strategol? Yn ychwanegol sicrhau nad ydi meini prawf yn cael eu cynnwys mewn polisïau sy'n ail-adrodd gofynion polisi arall heb fod angen gwneud hynny. Efallai bydd cyfle i drafod hyn mewn gwrandawiad ar wahân.**

**Ystyried gwneud newidiadau i'r Cynllun:**
- **(i) Golygu'r Cynllun er dileu'r cyfeiriad at 'Adneuo';**
- **(ii) Gosod allan dyddiad diwedd y Cynllun;**
- **(iii) Symleiddio rhannau a chael gwared â rhannau sy'n cynnwys gwybodaeth nad oes ei angen bellach;**
- **(iv) Mireinio meini prawf i leihau ailadrodd;**
- **(v) Sicrhau cysondeb o ran terminoleg, e.e. defnydd o ffin anheddle a ffin datblygu;**
- **(vi) Symud ffiniau AGT ac Ardaloedd Diogelu Mwynau o'r Mapiau Cyfyngiadau i'r Mapiau Cynigion;**

**Cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i ymdrin gyda'r tasgau a ddisgrifir uchod.**

## [6] Ymateb y Cynghorau

6.1 Mae'r Cynghorau wedi ystyried y Camau Gweithredu uchod ac sy'n dymuno cynnig nifer o welliannau i fynd i'r afael â'r materion. Mae enghreifftiau o Newidiadau Materion sy'n Codi yn cynnwys y canlynol:

i. Cael gwared â'r Crynodeb Gweithredu oherwydd nad oes ei angen ar y cam yma;
ii. Cael gwared â rhannau o Bennod 2, sydd, er enghraifft, yn disgrifio rhannau o'r broses paratoi'r Cynllun;
iii. Ail-drefnu polisiau ym Mhennod 7.4 er mwyn gwella llif gwybodaeth, ayb;
iv. Cael gwared â meini prawf mewn polisiau penodol er mwyn osgoi ail-adrodd.

(nid yw'r rhestr yma'n un trwyadl)

6.2 Mae'r Newidiadau Materion sy'n Codi yn cael eu cynnwys mewn cofrestr a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan.